LC277

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 7) (Diwygio) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r rheoliadau hyn yn diddymu Rheoliadau Rhif 6 sy'n dwyn yr un teitl ac yn eu disodli. Fel yn achos y rheoliadau blaenorol yn y gyfres maent yn gweithredu cyfyngiadau ar fewnforio ac allforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid penodol. Mae hyn yn cydymffurfio â chyfres o Benderfyniadau gan y Comisiwn.

Yr oedd Rheoliadau Rhif 6 yn gymwys tan 18 Mai ac felly mae'r rheoliadau presennol yn gymwys o'r amser pan ddaw'r rheoliadau blaenorol hynny i ben tan hanner nos ar 19 Mehefin.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

Fel yn achos offerynnau statudol blaenorol ynghylch clwy'r traed a'r genau, mae'r rheoliadau hyn wedi'u gwneud yn uniaith Saesneg, a hynny oherwydd yr amser byr ar gyfer gwneud y rheoliadau. Mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu o'r blaen at Weinidog perthnasol y Cynulliad mewn perthynas â hyn, a bydd yr ymateb i'r llythyr hwnnw yr un mor berthnasol yn yr achos hwn. Fel y crybwyllwyd o'r blaen, mater penodol i'w nodi

gyda’r rheoliadau hyn yw’r ffaith bod y testun i raddau helaeth yr un fath bob tro ag ar gyfer y rheoliadau cynharach yn y gyfres.

Mick Bates AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

5 Mehefin 2001